

Cronfa Datblygu Busnesau Gwledig

Canllawiau

Dylid darllen y nodiadau hyn yn llawn cyn cwblhau'r Ffurflen Gais. Cyfeiriwch yn ôl at y Canllawiau hyn wrth gwblhau'r ffurflen gais i'w chyflwyno.

I gael rhagor o gymorth cysylltwch â: Business@conwy.gov.uk

Cyflwyniad

Mae'r rhaglen grant wedi cael ei dylunio gan Grŵp Gweithredu Lleol Conwy Cynhaliol sy'n gyfrifol am ddarparu Rhaglen LEADER yng Nghonwy. Mae rhaglen LEADER yn rhan o Raglen Datblygu Gwledig – Cymunedau Gwledig 2014-2020 Llywodraeth Cymru, sy'n cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Amaethyddiaeth Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig.

Bydd y rhaglen grant yn cael ei darparu mewn partneriaeth gyda Thîm Cymorth Busnes Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Dyma grant yn ôl disgresiwn i gefnogi datblygiad economaidd busnesau yng Nghonwy wledig.

Pwy all wneud cais?

Oherwydd graddfa fach y gefnogaeth sydd ar gael, mae'r cynllun yn addas ar gyfer microfusnesau a busnes bach yn bennaf.

- Mae gan **feicrofusnes** lai na deg gweithiwr, a throsiant o hyd at €2 filiwn neu gyfanswm mantolen o hyd at €2 filiwn.
- Mae gan **fusnes bach** lai na 50 gweithiwr, a throsiant o hyd at €10 filiwn neu gyfanswm mantolen o hyd at €10 filiwn.

Mae'r busnesau canlynol yn gymwys:

- Unig Fasnachwr
- Partneriaethau
- Cwmni Cyfyngedig
- Cydweithfeydd
- Mentrau Cymdeithasol


I fod yn gymwys i dderbyn cymorth buddsoddi, rhaid i fusnesau fod wedi bod yn masnachu dros 3 mis ac wedi cofrestru gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi

Nid oes modd i bob busnes gael mwy nag un prosiect wedi'i gymeradwyo drwy'r prosiect hwn.

Ardal Gymwys

Mae'n rhaid bod gan fusnesau gyfeiriad yn seiliedig o fewn ward etholiadol cymwys yng Nghonwy wledig (ardaloedd glas tywydd ar y map isod). Mae'r ardaloedd cymwys wedi'u gosod gan Lywodraeth Cymru. Gweler y map isod a defnyddiwch y [gwiriwr cod post](#) (hanner ffordd i lawr y dudalen, Fformat Cod Post LL260DF).

Conwy Rural Development Plan area wards



Pa gymorth grant sydd ar gael?

Gall busnesau wneud cais am grant 50%, hyd at uchafswm o £5,000.

Byddai hyn yn gyllid grant o £5,000 ac yna arian cyfatebol o £5,000 neu ragor gan yr ymgeisydd.

Isafswm gwerth y grant yw £1,500.

Dylid nodi hefyd mai isafswm cost eitem unigol yw £100.

Mae'n rhaid i eitemau a/neu waith cysylltiedig gael gwerth gyda chyfanswm o £9,999.99 neu lai.

Mae gofyn i'r ymgeisydd ddarparu isafswm o 50% o arian cyfatebol tuag at gostau eu cais am grant.

Bydd angen i'r ymgeisydd ddangos sut bydd y 50% o arian cyfatebol yn cael ei ariannu ar y cam ymgeisio. Nid yw cyfraniadau o fath arall yn gymwys.

Nid oes modd i'r arian cyfatebol gynnwys unrhyw gyllid sy'n cynnwys, neu sydd eisoes wedi'i ddefnyddio i atynnu cyllid yr UE.

Os yw'r ymgeisydd wedi cofrestru at ddibenion TAW, mae'n rhaid i gostau fod yn NET.

Mae'n rhaid i ymgeiswyr sydd heb gofrestru at ddibenion TAW ddefnyddio costau gros.

Mae'n rhaid i brosiectau ddiwallu un neu ragor o'r amcanion isod

- Adfer / datblygu ar ôl covid
- Canolbwyntio ar ddatgarboneiddio a'r argyfwng hinsawdd
- Datblygu/adfer canol trefi/y stryd fawr ar ôl covid

Ar gyfer beth y gellir gwneud cais?

Mae costau cymwys yn cynnwys (ond heb eu cyfyngu i):

- Cyfarpar, gan gynnwys caledwedd TG ac offer
- Deunyddiau marchnata sydd wedi'u cynllunio i weithredu cynllun marchnad wedi'i dargedu y dylid ei gynnwys yn y cais (nid hysbysebion)
- Prosiectau lleihau carbon h.y. paneli solar / goleuadau ynni isel
- Uwchraddio digidol h.y. gwella / cychwyn dulliau digidol
- Efallai bydd hyfforddiant yn gymwys os yw'n berthnasol i weddill y cais, ac mae'n cefnogi datblygiad gwasanaeth neu farchnad newydd

Costau anghymwys:

- Gweithgareddau sydd eisoes wedi cychwyn (ni ellir prynu nac archebu eitemau nes bod cymeradwyaeth grant wedi'i rhoi)
- Prosiectau/hyfforddiant i fodloni gofynion statudol
- Adnewyddu h.y. disodli hen offer am rai newydd, Costau Cynnal a Chadw a/neu Gostau Rhedeg
- Prosiectau sy'n niweidiol i'r amgylchedd
- Prosiectau heb gydsyniadau statudol perthnasol (os yw'n berthnasol)
- Prynu Cerbydau
- Eitemau nad ydynt yn hanfodol ar gyfer llwyddiant y prosiect
- Prynu Tir a/neu Eiddo
- Costau Staff
- TAW Adferadwy
- Prynu stoc
- Caffael asedau o dan Bryniant Llogi, Cytundebau Credyd Estynedig neu Brydles
- Cost eitem unigol o lai na £100
- Nid oes modd i ni gefnogi gweithgarwch amaethyddol

Y Broses Ymgeisio

Cais Llawn

1. Mae'n bwysig sicrhau bod eich ffurflen gais wedi'i chwblhau'n llawn a bod yr holl ddogfennaeth ategol yn cael ei chynnwys ar adeg ei chyflwyno.

Mae hyn yn cynnwys:

- Cynllun Busnes Presennol
- Cyfrifon am flwyddyn *
- Datganiad Llif Arian, ac Elw a Cholled Arfaethedig
- Cadarnhad o'r Ffynhonnell Cyllid sy'n rhan o ddull ariannu'r prosiect
- Cadarnhad o'r **Caniatâd Cynllunio a / neu'r Rheoliadau Adeiladu (os yw'n berthnasol) gan gynnwys 'Newid Defnydd'.
- Amcangyfrifon/dyfnbrisiau gwreiddiol ar gyfer eitemau/gwaith prosiect (1 dyfnbris ar gyfer eitemau/gwaith sy'n costio llai na £5,000, 3 dyfnbris am unrhyw eitem/gwaith £5,000 neu fwy)
- Holl Ofynion Cyfreithiol Statudol ar gyfer y Busnes (os yw'n berthnasol)
- Cadarnhad cofrestru gyda Chyllid a Thollau EM

** Os nad yw'r busnes wedi bod yn masnachu yn ddigon hir i gyfrifon fod ar gael, bydd angen o leiaf 3 mis o ddatganiadau banc i ddangos tystiolaeth o fasnachu*

*** Mae'r cynnig o gyllid yn amodol ar dderbyn y gymeradwyaeth / caniatâd perthnasol.*

Gwneir penderfyniadau ar geisiadau yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarperir yn y ffurflen gais, tystiolaeth gysylltiedig a gwiriadau gwybodaeth o ffynonellau eraill. Os bydd unrhyw ddata yn anghyflawn neu'n anghywir neu os yw'r dystiolaeth a ddarperir yn annigonol, byddwn yn cysylltu â chi.

Gallai methu â chydymffurfio ohirio penderfyniad. Sylwch nad yw'r terfyn amser yn cychwyn nes bod yr holl ddogfennaeth sy'n ofynnol yn cael ei derbyn.

Fe'ch atgoffir ar hyn o bryd i beidio ag ymgymryd ag unrhyw wariant ar y prosiect nes bod penderfyniad ffurfiol wedi'i wneud ar y cais a'ch bod wedi cael cadarnhad ysgrifenedig o hyn.

2. *Lle gofynnir i chi wneud hynny, darparwch gymaint o wybodaeth â phosibl i egluro'r prosiect, ei fanteision a'i effaith*

3. Darllenwch yr holl wybodaeth a chanllawiau a ddarperir yn ofalus, ac yn benodol nodwch a gwnewch yn siŵr eich bod yn deall pob agwedd ar y ffurflen gais a'r canllawiau sy'n ymwneud â dyfarnu'r Grant Datblygu Busnes. Yn benodol, dylech chi fod yn ymwybodol o'r canlynol:

- **Ni thelir unrhyw gyllid ar wariant ôl-weithredol**
- **Ni thelir unrhyw gyllid lle ymgwymerwyd â thrafodion arian parod**

Cyfeirnod y Cwsmer (CRN)

Bydd gofyn i'r ymgeisydd gael Cyfeirnod Cwsmer Llywodraeth Cymru cyn parhau. Bydd pob sefydliad sy'n derbyn taliadau gan Lywodraeth Cymru angen un. Os nad oes gennych un, gallwch gynhyrchu un drwy greu manylion mewngofnodi ar Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein:

<https://llyw.cymru/mewngofnodi-ar-taliadau-gwledig-cymru-rpw-ar-lein>

- a) Y botwm gwyrdd 'mewngofnodi' i Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein
- b) Yna 'Creu manylion mewngofnodi'

- c) Mae angen ateb bob cwestiwn, e.e. pam mae angen cyfeirnod cwsmer arnoch? - 'derbynnydd Rhaglen Datblygu Gwledig cyllid LEADER'
- d) Bydd Cyfeirnod Cwsmer yn cael ei gynhyrchu dros dro yma. Cadwch gofnod o'r rhif hwn ar gyfer eich sefydliad
- e) Ond bydd angen argraffu, llofnodi a phostio ffurflen BACS hefyd i Swyddfa Llywodraeth Cymru yng Nghaernarfon. (Taliadau Gwledig Cymru, Blwch Post 251, Caernarfon, LL55 9DA). Sicrhewch fod y cam hwn yn cael ei gwblhau, er eich bod yn hawlio drwy Gonwy Cynhaliol. Bydd methiant i gwblhau'r cam hwn yn arwain at oedi i daliad eich grant
- f) Dylech dderbyn llythyr i gadarnhau bod eich Cyfeirnod Cwsmer wedi cael ei weithredu. Os nad ydych wedi ei dderbyn, bydd angen i chi ddilyn hyn i fyny drwy gysylltu â Swyddfa Llywodraeth Cymru yng Nghaernarfon
- g) Gall ymgeiswyr gysylltu â Chanolfan Gyswilt Taliadau Gwledig Cymru ar 0300 062 5004 os oes problemau
- h) Bydd Llywodraeth Cymru yn eich hysbysu o unrhyw ymholiadau yn ymwneud â'ch cais am Gyfeirnod Cwsmer drwy eich cyfrif Taliadau Gwledig Cymru ar-lein. Gwiriwch unrhyw negeseuon ac ymatebwch i ymholiadau gan Lywodraeth Cymru'n brydlon i osgoi oedi gyda thaliad eich grant

https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-02/rpw-ar-lein-sut-i-gofrestru_0.pdf

Prosesu eich Cais

Ar ôl derbyn eich ffurflen gais lawn, bydd swyddogion prosiect yn:-

- Gwirio bod yr holl fanylion a ddarperir mewn trefn ac os na, yn rhoi gwybod i chi pa wybodaeth bellach sy'n ofynnol.
- Cynnal ymgynghoriad, a all gynnwys:
 - Geirda gan y banc
 - Chwiliad gydag asiantaeth gwirio credyd mewn perthynas â'ch busnes. *Bydd yr asiantaeth yn cadw cofnod o'r chwiliad hwnnw a gall rannu'r wybodaeth honno ag asiantaethau eraill.*
 - Gwneud ymholiadau mewn perthynas â chyfarwyddwyr cwmni gydag asiantaeth gwirio credyd.
 - Chwiliadau lleol e.e. Treth y Cyngor a/neu gyfraddau annomestig
- Bydd y Swyddog Prosiect yn cwblhau adroddiad argymhell

Rhoi gwybod am y penderfyniad

- Mae paneli grant yn cwrdd yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn.
- Cewch wybod am y penderfyniad drwy neges e-bost.
- Os byddwch yn llwyddiannus fe'ch hysbysir o'r swm a gynigir ac unrhyw amodau penodol sy'n ymwneud â'r dyfarniad.
- Wedi'i atodi i'r llythyr bydd y contract '*Telerau ac Amodau*' y bydd yn rhaid i chi gadw ato.

Rhaid llofnodi a dychwelyd y ddogfen hon o fewn 14 diwrnod o gael y cynnig cyllid

Proses Hawlio:

Dylid anfon pob hawliad ymlaen i conwylocalactiongroup@conwy.gov.uk.

Cofiwch gynnwys y canlynol:

1. Anfonebau wedi'u Talu ar gyfer pob archeb (Mae'n rhaid fod cyfeiriad y busnes ar yr anfoneb)
2. Cyfriflenni Banc yn dangos taliad am archebion

Unwaith mae'r holl wybodaeth wedi cael ei derbyn:

- Bydd Conwy Cynhaliol yn anfon ffurflen hawlio electronig i'r ymgeisydd (dros e-bost)
- Yr ymgeisydd i arwyddo a dychwelyd y ffurflen yn electronig i Gonwy Cynhaliol
- Bydd cyllid yn cael ei ryddhau i Gyfrif Banc y Busnes drwy daliad BACS.

Mae'n rhaid cwblhau pob prosiect erbyn 30 Tachwedd, 2022.

Datganiad Cymorth Gwladwriaethol

Rheolau Cymorth De-Minimis Diwydiannol

Mae pob grant yn cael ei ddsbarthu fel Cymorth De-Minimis Diwydiannol gyda Rheoliadau Comisiwn (UE) Rhif 1407/2013 ar 18 Rhagfyr 2013 wrth gymhwyso Erthyglau 107 ac 108 Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd i gymorth de minimis. Mae'n rhaid i'r ymgeisydd fanylu yn eu ffurflen gais unrhyw gyllid cyhoeddus a dderbyniwyd yn y 3 blwyddyn gyllidol ddiwethaf.

